YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

Y REBEL.

MRS. ANN EVANS, MAESYGAER, CILIAU AERON.

PANTEG.

DIWEDD IANTO.

MARWGOFION.

NODION YR EGLWYSI.



CYF. XXXVII

AWST 1937

RHIF 8

YR YMOFYNNYDD

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. L. Jones, 38, Monthermer Road, Cathays, Cardiff.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr,—J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

MYNNWCH GOPI O LYFR NEWYDD

SARNICOL

'Blodau Drain Duon'

SYDD YN AWR YN EI AIL ARGRAFFIAD

Pris 1s. (Drwy'r Post, 1s. 2c.)

Anfoner i

SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

Cyhoeddwyd yr Argraffiad Cyntaf ychydig cyn Nadolig.
Y mae'r Ail Argraffiad yn awr yn barod.

CERDDI DIGRI

A RHAI PETHAU ERAILL

Gan IDWAL JONES.

Yn cynnwys iimrigau, braslun o ffarsiau byrion, a'r cerddi ac adroddiadau a ganlyn—*Un Dyn Bach ar ôl, Eistedd ar ben Llidiard, Ie wir! Twt, twt! Swot, Siani, Marged, Leisa, Caru Mari, Profiadau Hyfryd, Profiadau Diflas, Ymadawiad Neli, Diniweidrwydd Dyn, etc.*

Anfonwch at y Cyhoeddwyr:

J. D. LEWIS A'I FEIBION, GWASG GOMER, LLANDYSUL.

Pris 2s., Drwy'r Post, 2s. 3c.

YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd : Y Parch. T. L. JONES

CYFROL XXXVII. AWST, 1937 RHIF 8.

Y Rebel.

ERBYN y bydd y rhifyn hwn allan o'r wasg bydd Pwyllgor y Gymdeithas wedi ystyried ac apwyntio GOLYGYDD NEWYDD ond rhag i'r oesau a ddel drafferthu a chamfarnu credaf nad anniddorol i mi osod allan fy safbwynt fy hun, heb geisio llefaru ar ran neb, ar faterion y teimlaf i'r byw arnynt.

Ar lawer tro o weld y difrawder, y diffyg ynni llethol, a'r safbwynt ceidwadol y sy'n ffynnu, y mae cywilydd arnaf o'r enw Undodwr. Y mae perigl i ddyn o gadw'r plisg yn gyfan dybio bod enaid yr Undodwr yn fyw ynddo. Y mae llawer un wedi marw yn y plisg. Y mae'r cynhyrfiad cyntaf wedi peidio ers llawer dydd, a llawer un ohonom yn farw'n dod. Y mae'n bryd dweyd y gwir yn onest er ennill hwyrach yr enw Jeremeia, ond gwell Jeremia gonest na gŵr na fynn wynebu'r gwir.

Nid gwaith dymunol fflangellu, a chofier o garu plentyn neu fudiad, y fflangellwr ei hun y sydd â marciau ar ei enaid.

Y mae oerfelgarwch difeddwl a diogi meddyliol yn fy ngwneud ar fy ngwaethaf yn amheuwr rhonc. Yn aml amheuaf y llwybr. Yr wyf wedi colli'r golau'n lân, ac yn barod i daflu'r cyfan i fyny. Ryw ddydd fe gaiff y goreu arnaf, a dyna ben arni wedyn. Y mae gennyf bren eirin yn yr ardd yn estyn ei gangau dros y mur er chwilio am y golau. Er bod yn gymydogol a pharchus, tociais innau'r cangau a mynd arnynt, ac nid oes yn aros heddiw ond hen foncyff di-gangau a di-eirin. Gobeithio nad yw yn ddarlun o'r mudiad a garaf. Nid wyf yn fodlon ar bethau. Nid oes enaid mewn dim. Ni chredaf y gofala odid neb p'un ai byw ai marw yr YMOFYNNYDD ?

Y mae gan ein cyfoethogion arian at bopeth ond at hyrwyddo'r mudiad bach. Ar fyrr bydd raid cael siarad plaen, costied a gostio. Nid iawn swatio fel Hitler tan gochl y mudiad gan roi i'r mudiad liw nas mynn. Y mae'n bryd i rywun ysgwyd y mudiad er cadw'r egwyddor yn ei blâs. Dyna'r cefndir. Dyna fŵd y *Rebel.*

Rhyfel.

O ddyddiau Iolo Morganwg a Thomos Glyn Cothi y mae'r Undodwr wedi bod yn garwr heddwch. Nid cranc mohono ond gŵr y sy'n teimlo bod un o ddau lwybr yn agored iddo—ymwadu â rhyfel neu ymwadu â Duw. Nid mater nad yw rhyfel yn talu'r ffordd mohoni ond mater bod rhyfel yn ddieflig i'r gwraidd—ei fod yn trwblu ffynonhellau ymarweddiad yn enaid dyn. Y mae'n dod ar garlam i'r pen. O bydd rhyfel byd eang eto, dyna ddiwedd ar wareiddiad yr ugeinfed ganrif. O ddarllain diawlineb Abysynia a Guernica a Bilbao y mae dyn yn barod i weddio am derfyn ar wareiddiad oni fedr gynhyrchu rhywbeth heblaw a fendithir gan eglwysi'n gwlad ni. Yr ym yn bendithio arfau. Amheuaf a oes hawl gan neb yn enw Duw fendithio dim o'r fath. Ar y goreu nid yw ond rhaid a osodir arnom, y bydd cywilydd gennym o'r herwydd yn y man.

Yr oedd gan yr enwadau slawer dydd hen arfer diflas o dorri dyn allan o'r capel am ryw bechodau. O bu galw am dorri neb allan, dyma hwy—y bobl y sy'n caru rhyfel. Ni fynnwn i berthyn am hanner munud i fudiad oni byddai a'i holl enaid o blaid heddwch a chyfiawnder a chwarae teg ym mhob cylch o fywyd.

Arwain hyn at Ysgol Fomio Porth Neigwl. Ni ddwedaf bod hawl gan neb i losgi ffordd y cerddo ond credaf y byddai yn werth i ni ail feddwl dros y mater. Ni ofala llawer un y sy'n siglo'i ben yn ddoeth iawn gan sôn am gadw cyfraith gwlad am y gyfraith honno wrth lanw ei income tax returns neu rywbeth a ddwg broffid i'w boced ond iddo beidio cael ei ddal.

Y mae'n werth i ni wynebu'r cwestiwn yn onest, " Onid oes yna gyfraith uwch na chyfraith gwlad ? "

" A oes yna amgylchiadau mewn bywyd pan orfodo cydwybod dyn iddo dorri cyfraith gwlad er achub enaid cenedl ? "

O weld tuedd pethau heddiw, a'r olwg fygythiol yn y dwyrain ac yn Ewrop credaf yn ddibetrus y bydd sôn am Y Tri Hyn yn enaid y Cymro pan fo y rhai sy'n cadw'r gyfraith ac yn byw'n fras wedi mynd i ebargofiant ers llawer dydd. Ofnaf bod yna lawer fel finnau yn ormod o gowardiaid i ddilyn y golau. Y mae gwraig a phlant yn anwylach gennym nag egwyddor a rhyddid cenedl, a lles dynoliaeth.

Codaf fy nghap iddynt am iddynt fod yn ddigon dewr, nid i danio ysgol fomio, ond i ddilyn y golau llachar er iddo dywynnu ar lwybr y groes. "Dwy ran eu helynt, drain a hoelion."

Ofnaf fod yna duedd i gau llygaid ar lawer problem heddiw. Rhyw fyw yn fas ar yr wyneb yr ym. Nid ym wedi meddwl na theimlo i'r byw am ddim. Nid dyna'r mŵd i wynebu'r crisis mwyaf mewn hanes. Fe fyddai'n gysur i deimlo bod dyn wedi gafael yn dynn mewn egwyddor, ac y doi yn ei grym ar waethaf y storm a'r tywydd garw yn ddiogel i dir. Nid wyf yn sicr mai crefyddwyr y sydd yn meddwl fwyaf ar y problemau hyn. Y mae'u meddyliau hwy yn yr hen rigolau, ond y mae yna nifer bach yn meddwl ar hyd llwybrau newydd.

Awgrymai Priestley mai cymwynaswr pennaf ei oes a fyddai darganfyddwr Drug Newydd—llai niweidiol na chocaine. Nid wyf yn sicr o hynny. Ofnaf bod yr oes eisoes dan ddylanwad rhyw ddrug neu gilydd—yn gwsg—yn ddi-fater, a bod galw am rywun fel y proffwyd gynt i'w hysgwyd er iddi gerdded rhagddi yn ei nerth.

Fe glywir beunydd a beunos heddiw sôn am yr hen deidiau—am eu sêl a'u ffyddlondeb. Y mae'r ffashwn yn newid hyd yn oed ym myd crefydd. Nid wyf yn sicr na cherddodd llawer oes i'r eglwys o dybio mai dyna'r unig lwybr i'r nefoedd. Ni chredwn hynny mwy ac ni cherddwn i'r eglwys ychwaith. Ni chredaf i am foment ein bod yn waeth dynion o beidio. Nid wyf yn sicr na ddaw dydd ar fyrr pan geir arbrofion newydd ar grefydda. Yr wyf yn fodlon addef nad ym yn werth ein gwrando'n fynych. Safwn ar y groesffordd, ac ni wn i ar ba law i droi. Credaf, serch hynny, na thrown oddiwrth Dduw. Nid yw'r dull a'r modd yn ddim. Nid yw'r hen ffashwn yn ddim gennyf. Yr wyf yn fodlon i'w newid yfory o chaiff dyn afael sicrach ar Dduw. Fe fyddai'n ddiddorol ceisio dyfalu ffordd y fory o grefydda ond ni thâl ddim. Digon yw dwedyd gyda rhywun gynt, "Un cam sydd ddigon im'."

Problem Ysgaru.

Ni wn a sangaf ar dir peryglus o sôn mewn papur enwad am Ysgaru. Y mae Bill wedi pasio drwy'r senedd ar hyn o bryd yn ymwneud â chwestiwn y sydd yn cyffwrdd â chysur llawer teulu. Ofnaf na fedraf i edrych arno fel y Catholiciaid. Dwedaf i gyda Christ ar fater arall, "Priodas a wnawd er mwyn dyn ac nid dyn er mwyn priodas." Ni chredaf am foment ei bod ym mwriad Duw i gadw deuddyn gyda'i gilydd beth bynnag yr amgylchiadau . . . . a ffolineb yw dweyd bod priodas ag oferddyn, llofrudd neu wallgofddyn yn gysegredig. "Pan beidio serch, fe baid y cysegredigrwydd hefyd". Y mae'n bryd dod dros yr hen syniadau o briodas fel ordinhad Duw—o ddwyfol osodiad—wedi eu gwneud yn y

nef. . . . Gwn yr hen syniad ond y mae'n bryd ei newid, a chofio mai amcan priodas yw ymgyrraedd at y pur a'r glân. Nid oes gan ddyn amser hir i fod yma ar y goreu, a'i amcan yw cael yn yr ychydig flynyddoedd y mae yma gysur ac hapusrwydd a phurdeb. Nid offeiriad na phregethwr na gwasanaeth y sy'n cysegru priodas ond cariad pur dwy galon lân. Ni ŵyr yr hen a'u gwaed wedi oeri am brofedigaeth yr ieuanc. Ni ŵyr neb ond dyn ei hunan a Duw rym dim y sydd mewn dyn, ac o bydd dim yn rhwystr neu yn ychwanegu at y baich, ni ddylesid ei oddef.

Credaf y bydd yr oes nesaf yn synnu ein bod wedi dioddef y cyffion cyhyd. Y mae galw am ddynoli llawer deddf er rhoi chwarae teg i lawer un yn ymdrechfa fawr bywyd. Y mae yn edrych yn odd bod galw am hiwmorist i dorri cyffion priodas, a hwyrach bod galw am fwy o hiwmor mewn bywyd er ysgafnhau tipyn ar ein Puritaniaeth y sydd wedi caledu amdanom ers tro byd bellach. Nid wyf yn sicr na bu digwyddiadau diweddar yn help i ddangos i'r genedl bod gan Dduw olau newydd ar lawer hen broblem y sydd wedi peri anghysur i ddyn ar hyd yr oesau. Nid dweyd yr wyf y dylasai fod wedi dod ers canrifoedd. Nid oedd dyn yn aeddfed iddo a gallasai droi yn ddim ond penrhyddid anfoesol, ond dylasai dyn yn yr ugeinfed ganrif fod yn abl i ddewis ei lwybr heb ddeddf na rhaid ym myd moes a phriodas. Gwn nad yw llawer ohonom eto, ond trueni llyffetheirio pawb er mwyn nifer bach penrhydd.

Neithiwr bum yn gwrando ar ddrama yn darlunio bywyd Elizabeth Fry, a'r modd y trinid carcharorion slawer dydd. Yr oedd ein carcharau yn libel ar grefydd ac ar Grist. Cofiaf fwy o flynyddoedd yn ôl nag y caraf feddwl amdanynt heddiw am ddarllain yn fachgen ifanc ifanc am grogi rhywun am ladd ei gariad. Gwn imi golli nosweithiau ar nosweithiau o gwsg a dihuno dro byd a'r rhaff am fy ngwddf. Y mae yn warth ac yn gywilydd i genedl olau ddal ar hen arfer barbaraidd o grogi dyn am foment hwyrach o anhwylltra. Ymhob cosp y mae amcan—gwella y gŵr a gospir, ond ni chredaf bod fawr siawns gwella dyn o'i grogi. Nid yn unig y mae yn farbaraidd i'r llofrudd ond y mae yn harneiddio pob un y sydd yn cymryd rhan yn y barbareiddiwch. Y mae yn bryd i genedl Gristionogol wneud i ffwrdd â barbareiddiwch o'r fath a phenyd wasanaeth hefyd o ran hynny. Ni ddylasai neb gael term penodedig ond yn hytrach dylasai fod yno hyd nes y gwelid ei fod yn edifeiriol am ei drosedd ac yn deilwng i gymysgu eilwaith â'i gyd-ddynion. Fe fuasai blwyddyn i un yn fwy na deng mlynedd i arall. Ni chedwir neb mewn ysbyty wedi'i wella, ac ofer cadw neb mewn carchar ond gyda'r amcan o'i wneud yn well dyn. Fe fyddai'n werth i lawer un ddarllain "*Walls Have Ears*" er gwybod y sydd yn digwydd rhwng muriau carcharau Prydain Fawr. Credaf y doi ton o gywilydd drosom

hyd yn oed heddiw, ac y mae pethau wedi gwella yn enbyd ond eto y mae lle a galw hefyd.

Y mae'n bryd i ni sylweddoli nad dieuog mohonom am ein systemau, ac ni byddwn yn deilwng i fotio dros Aelod Seneddol oni fyddwn yn abl i ddweyd wrtho am yr hyn sydd yn galw o bennau tai am ei ddiwygio. Y mae papur enwad cyn hyn wedi dylanwadu er daioni ar lif bywyd cenedl gan ei droi i gyfeiriad gwell, a chredaf y medrai yr YMOFYNNYDD eto godi'i lais er rhoi terfyn ar lawer peth y sy'n duo a damnio bywyd dyn mewn llawer cyfeiriad.

N. a N.

Mrs. Ann Evans, Maesygaer, Ciliau Aeron.

YN ardaloedd Mŵn Plwm pan fo dyn yn "dechreu bostio'i berthnasau" fe gymerir yn ganiataol ei fod wedi cael tropyn yn ormod : ond nid dyna'r rheswm am yr ysgrif hon o glod i fy modryb Ann, eithr o achos cymhellion taer Urdd y Benywod.

Y wers gyntaf a ddysgais mewn diwinyddiaeth pan own yn llanc rhyw chwech oed, oedd : fod y Nefoedd yn lle "gogoneddus a hyfryd" ac Uffern yn "llyn yn llosgi o dân a brwmstan". Ni chofiaf fod y wybodaeth hon wedi ychwanegu dim at gysur fy mywyd, ond pan glywais, ar ddamwain, gan ŵr da o'r ardal, nad oedd yn bosibl i Sosin gael mynd i'r Nefoedd, aeth y wybodaeth yn ddolur calon ac yn dristwch ysbryd i mi, oblegid Sosiniaid rhonc fy ewythr Ifan a modryb Ann—y ddau hoffusaf gennyf o bawb. Llawer noson y cefais hunllefau poenus o'u plegid. Gallaf yn awr ddisgrifio gyda manylrwydd y gweledigaethau dychrynllyd a welais—clywais yr udgorn diweddaf yn seinio lawer gwaith—gwelais y Barnwr mawr yn dod ar gymylau'r Nef droion,—a golwg arswydus arno—ac yn hurddio f'ewythr Ifan a modryb Ann a finnau gyda nhw i'r pwll diwaelod, lle yr oedd y tân a'r brwmstan, a phroblem anodd i mi ydoedd ceisio esbonio sut yn y byd y gallasai'r Iesu y dysgwn am dano yn yr Ysgol Sul—Ei fod mor dda a charedig a thrugarog—fod wedi mynd yn Farnwr mor greulon tuag at blentyn nad oedd yn or-ddireidus—a Sosiniaid—a chredaf mai tua'r adeg yma y dechreuodd fy hereticiaeth innau.

Y mae i Undodiaeth Ceredigion draddodiadau gwych a threftadaeth gyfoethog. Hwyrach nad ydyw Cymru eto wedi sylweddoli yn llawn fesur ei dyled i arloeswyr cynnar Anghydffurfiaeth fore Canolbarth Ceredigion. Yr oedd Rowlands Llangeitho am achub y pennaf o bechaduriaid, ond os yw tystiolaeth yr hen grydd o Lanarth yn gywir, fe hoffai daflu Dafydd Llwyd Brynllefrith a'i gwmni "i'r cambwll obry, tros fyth i soddi'n sarn" ; a thipyn o

hiwmorist oedd yr hen grydd, " canys " ebr ef, " Rowlands, nid yr Iesu, sy'n penderfynu'r farn " ; ac eto, gellir crynhoi'r gwahaniaeth rhwng y ddau ddiwygiwr, i rhyw frawddeg fel hyn,—Paratoi dynion ar gyfer Nefoedd mewn byd arall oedd gwaith mawr Rowlands, *a cheisio cael tipyn o Nefoedd i lawr i blith dynion ar y ddaear oedd amcan pennaf Dafydd Llwyd.* Yr oedd Dafydd Llwyd yn olyniaeth y dewrion hynny y mae cof am danynt ar lech yn wal capel y Ciliau ; y rhai a oleuodd gannwyll yng nghaddug du yr ail ganrif ar bymtheg, y rhai a droes ysgubor Tanygaer yn Fethel—ac yn amser erledigaeth a drodd " y coedydd gerllaw " yn deml sanctaidd. Dynion â rhuddin derw yn eu cyfansoddiad moesol oedd y rhai hyn, canys hwy a feiddiodd dorri cyfraith gwlad, gan herio llid y brenin yn hytrach na gwadu eu hargyhoeddiadau a cholli ohonynt y goleuni a oedd ganddynt. Y mae dyled y byd yn fawr i ddynion a feiddiodd dorri cyfraith gwlad ar brydiau. Ni wn fod eu henwau ar gael, ac y " darfu am danynt fel pe na buasent, eithr, cyfiawnder y rhai nis anghofiwyd, a chyda'u hiliogaeth hwynt yr erys etifeddiaeth dda ". Na adawer i'r iorwg orchuddio maen eu coffadwriaeth yng Nghiliau Aeron—nac yn yr oes faterol hon i iorwg gwaeth ddileu eu coffadwriaeth o gof y genhedlaeth sydd yn codi.

Yn Nhan y Gaer y ganwyd fy modryb Ann, ac yma, yn ymyl yr Achos a sefydlwyd gan y dewrion hynny, y treulia y rhan fwyaf o'i hoes, ac ni wn am fan cyfaddasach iddi hi fyw ynddo na hwn, oblegid y mae hi o hiliogaeth ysbrydol y dewrion hyn. Nid yn ddibwrpas y crwydrais oddiar fy nhestun i sôn am ' draddodiad ' a ' threftadaeth ' Undodiaeth Ceredigion. Yn ddiameu gennyf, fe'i personolir yn eu cyfoeth yng nghymeriad fy modryb. Pe gofynnid i mi ddangos esiampl o Undodiaeth ar ei goreu, ni phetruswn ddangos ei chymeriad hi. Breintiwyd hi â chynheddfau naturiol eithriadol—ei meddwl grymus a chlir—llydan ac ymchwilgar. Ni allaf dybio y gellid ei chaethiwo hi i unrhyw rigolau culion, na chredoau haearnaidd. Y mae ynddi ddawn arbennig o chwilio pob peth, ac o ddal ar yr hyn sydd dda. Gŵyr pawb a'i hadnabu am gyfoeth ei meddwl, ac am y doethineb a'r diwylliant eang a enillodd iddi ei hun ar hyd y blynyddoedd. Beth fuasai ei rhawd pes ganesid hi yn ddiweddarach—yng nghyfnod cyfleusterau ysgol ganol radd a choleg ? Gellir mentro y buasai wedi cyrraedd tir uchel. Ond anodd gennyf feddwl y buasai yn fwy diwylliedig nag ydyw.

Bu ei haelwyd yn ail gartref i mi er yn blentyn. Cof melys sydd gennyf am f'ewythr Ifan a hithau ym mlodau eu dyddiau. Yno yr oedd llawenydd bywyd a heulwen haf difachlud. Ef a'i ysbryd diwenwyn a'i hiwmor iach, a'i nwyd at gân a cherddoriaeth, a hithau yn ei rhadlonrwydd tangnefeddus, beunydd yn ymddiddori mewn rhyw lyfr neu gilydd. Dyna'r darlun o honynt a erys ar

fy nghof o'r dyddiau a fu. Ond daeth y dydd blin gyda sydyn-rwydd. Torrwyd ef ymaith yn anterth ei nerth ac yng nghanol ei waith a'i ddefnyddioldeb, a chyd-alarodd ardal gyfan gyda hi ar ei ôl. Ni fu hithau yn hir cyn cael ei chaethiwo i'w chornel gan glefyd blin y " rheumatoid athritis ", ond er hyn oll, ni surodd ei hysbryd, ac ni phallodd ei thangnefedd, oblegid dysgodd y ddawn o feddiannu ei henaid mewn amynedd.

Bu cysylltiad y ddau â'r Achos yng Nghiliau Aeron yn agos iawn er adeg adeiladu'r capel newydd. Rhoddasant o'u goreu i wasanaeth achos a garent mor fawr, ac er ei chaethiwed hi, parhâ i wasanaethu a'i holl allu, a thystia y sawl a'i hadnabu oreu i werth y gwasanaeth a gyflawna. Bu yn gyfaill cywir i bob gweinidog ac yn arweinydd doeth a charedig i bob aelod o'r eglwys, ac ni pheidia yr haul a gwenu ar ei haelwyd. Y mae yn ffodus fod ganddi un yn gweinu arni yn ffyddlon a thyner, ac enillodd iddi ei hun serch llu o gymdogion caredig na flina ei ffyddlondeb iddi.

Mae yn sicr gennyf yr haedda fy modryb Ann le annwyl yn Oriel ffyddloniaid Undodiaeth Ceredigion.

Boed ei phrynhawn ddydd yn felys a digwmwl, a chaffed aros eto yn hir yn serch ac edmygedd ei lliaws cyfeillion.

Pont Rhyd y Groes. D. J. Davies.

Panteg.

Gan Miss E. James, C.S., Greengrove, Capel Iwan.

Rhaid fod llawer o ramant yn perthyn i hanes Achos Panteg. Yn anffodus ychydig o'r hanes sydd ar glawr ac ofnaf nas gwn i ond rhan fechan o'r ychydig hwnnw. Saif y capel bychan ym mhlwyf Cilrhedyn yn Sir Gaerfyrddin, ac adeiladwyd ef yn 1764. Y mae felly achos crefyddol o ryw fath wedi ffynnu yma am 173 o flynyddoedd. Bedyddwyr Cyffredinol* (General Baptists) gododd y capel ar y cychwyn, ac er nad yw'r capel na'r gynulleidfa hyd y gwn i erioed wedi bod yn fawr, torrodd tair cynulleidfa perthynol i'r Bedyddwyr allan oddiyma, sef Rehoboth

*Gweler erthygl ar 'Banteg' yn Ymofynnydd Ionor 1930, tdd. 1—6. Ni chredaf mai Bedyddwyr Cyffredinol a'i cododd, oherwydd ni rwygodd enwad y Bedyddwyr yn yr ardal tan gymanfa Salem Mydrim yn 1799, ac yr oedd Panteg wedi'i godi ers pumtheg mlynedd ar hugain.

a saif heb fod ymhell o'r fan yma, Drefach, a Chastell Newydd Emlyn.

Yn gymharol gynnar yn ei hanes dechreuodd rhai o'r aelodau goleddu syniadau Arminaidd, ac yn raddol, cynhyddodd nifer yr Arminiaid. Y canlyniad fu i'r rhai oedd a'u tuedd at Galfiniaeth tua 1799, ymadael, gan adael y Capel i'r Arminiaid. Er hynny, glynwyd wrth yr arfer o Fedydd, ac fel Unitarian Baptists yr adnabyddir yr achos hyd heddiw. Ar y cychwyn gofelid am y gynulleidfa fechan gan bregethwyr a gweinidogion lleyg ond yn anffodus nid oes rhyw lawer o'u hanes hwythau ar glawr.

Bu un o'r enw William Thomas, Armin, yn gwasanaethu yma am dymor byr 1799—1801. Efe oedd yma pan ymadawodd yr Adran Galfinaidd. Bu un Benjamin Evans, aelod o'r gynulleidfa, yn gofalu am yr achos am y cyfnod maith o 40 mlynedd, 1807—47. Bu ef farw yn 1850 yn 94 oed. Wedi ei farw ef pregethwyd yma ar adegau rhwng 1847 a 1861 gan David Lloyd a Titus Evans, athrawon yn y Coleg Presbyteraidd, Caerfyrddin, ynghyd â myfyrwyr Undodaidd o'r coleg hwnnw. O 1861—68 gweinidogaethwyd yma gan William Beynon Hughes ; ychydig a wyddis am dano yntau. Am gyfnodau byr bu Walter Jenkins a William E. Davies o Eglwys Llwynrhydowen, a fu wedi hynny yn weinidog yng Nghribyn yn gweinidogaethu yma. Am dymhorau bu Gwilym Marles ac eraill a'r achos dan eu gofal. Yn 1879 daeth Jenkin Williams, brodor o Aberdâr yma o Flaengwrach yn Nyffryn Nedd, a rhoddodd wasanaeth ffyddlon ar waethaf ei lesgedd yn ei flynyddoedd olaf hyd ei farw yn 1910. Oddiar hynny y mae wedi gorfod dibynnu ar wasanaethau achlysurol, pan ymwelir â ni gan ryw weinidog neu fyfyriwr.

Bu Penrhiw—capel bychan a saif rhyw bedair milldir oddiyma yn Nhrefach Velindre—yn chwaer eglwys i Banteg am gyfnod gweddol faith.

Yn 1873 cawn Mr. John Bowen, Llwyneinon gerllaw yma, tad y Parch. Samuel E. Bowen—drwy gyfrwng YR YMOFYNNYDD yn apelio am gymorth i adgyweirio dipyn ar y capel. Daeth yr arian i law yn weddol rwydd a gwariwyd £100 arno. Yn 1899 cawn Mr. Bowen yn apelio am gymorth eto. Gwnawd llawer o gymhennu arno'r tro hwn, ac fe saif y capel heddiw fel ag y gwnai yn 1900, ond ei fod yn fwy diraen. Cynhaliwyd Cyrddau Chwarterol yr enwad yma ar achlysur ei ail agor ar Hydref 16 a 17, 1900. Pregethwyd nos Fawrth gan y Parch. Lewis Williams, Ciliau a Rhydygwin. Borau Mercher pregethwyd gan y diweddar Barchn. T. Arthur Thomas a John Davies, Alltyplaca, ac yn y prynhawn gan y Parchn. Lewis Williams a John Davies. Cynhaliwyd Cyfarfodydd Chwarterol yr enwad yma rai troion cyn hyn, Hydref 17 a 18, 1877, y noson gyntaf cynhaliwyd gwasanaeth ym Mhenrhiw, a Phanteg. Pregethwyd yn y blaenaf gan y Parchn. Thomas

Thomas a William James ac ym Mhanteg gan y Parchn. Hathren Davies, Cefncoed Cymer a E. W. Lloyd, Aberdâr. Bore Iau pregethwyd gan y Parch. Dd. Evans, Maesmeillion—gwraig yr hwn oedd o'r ardal hon. Yma cafwyd cynhadledd, pryd darllenwyd papur gan y Parch. William James ar " Beth sydd gynwysedig mewn bod yn wir Gristion ". Cymerwyd rhan yn yr ymdrafodaeth gan y Parchn. Dd. Evans, Thomas Thomas, John Davies, E. W. Lloyd a chan ddau leygwr, Rees Thomas, Greengrove o'r lle hwn ac un o'r rhai drowyd allan o'i fferm, sef Domen, ger Llwynrhydowen, wedi etholiad 1868 ac a ddaeth i'r ardal yma i fyw, a David Charles, Pencwarre, un o gedyrn yr achos yn Llwynrhydowen yn y blynyddoedd hynny. Feallai y goddefwch i mi ddyweyd i'm tad a'r Rees Thomas uchod ddod yn gyfeillion mynwesol, ac mae yn y tŷ lle trigai Rees Thomas y gorffennodd fy nhad ei ddyddiau ; yno hefyd y trig fy chwiorydd a minnau. Pregethwyd yn oedfa'r hwyr gan y Parchn. John Davies a William James. Cyhoeddwyd yn y cyrddau yma yn 1900 fod y capel yn rhydd o ddyled ac fod y capel a'r fynwent yn eiddo i'r gynulleidfa yn *freehold*.

Dydd Sadwrn, Medi 7, 1901 bedyddiodd y Parch. John Davies, Alltyplaca ddau o feibion Mr. John Bowen, Llwyneinon ym medyddfa y capel drwy drochiad. Yr oedd y bachgen hynaf yn 16 oed a'r llall yn 15. Trannoeth derbyniwyd y ddau yn aelodau o'r gynulleidfa. Nid oedd neb wedi ei fedyddio yma cyn hynny ers dros 40 mlynedd. Tebig mai y Parch. S. E. Bowen a Mr. William Bowen oedd y ddau frawd.

Y tro diweddaf y cynhaliwyd Cyrddau Chwarter yma oedd yn Hydref 1904. Pregethwyd y noson gyntaf gan y Parchn. J. P. Kane a Lewis Williams. Prynhawn trannoeth gan y Parchn. T. J. Jenkins, Gellionnen a Dd. Evans, Cribyn ; yn yr hwyr gan y Parchn. D. R. Davies, Glan Rhondda a D. J. Evans, Cwmbach.

Wele enwau rhai o'r hen ffyddloniaid y cofiaf amdanynt : Mr. John Evans, Castell Newydd Emlyn (tadcu Miss Williams a Mrs. Jones, Caeronnen, Llandysul), Samuel Hughes, Llwynbedw, Benjamin Hughes, Y Felin, David Hughes y Gof, John Bowen, Llwyneinon a Mrs. Hannah Thomas, Pantybwlch ac amryw eraill.

GWENNOL.

Y wennol, dywed inni
Ar y daith i ble'r ei di ?
A myned, pam, y wennol,
Y doi i'th hen nyth dithau'n ôl ?

Diwedd Ianto.

Gan J. Seymour Rees.

Un prynhawn, er's blynyddoedd lawer, yr oeddwn mewn porthladd arbennig yn y gorllewin. Caniatawyd i mi, am rai oriau, i'w defnyddio yn ôl fy chwaeth. Nid oedd nemor atyniadau yn y lle ei hun ag eithrio nifer o dai'r ddawns a thafarndai.

Felly penderfynais am y tro i fynd am daith i'r wlad. I fyny ymhell ar lechweddi'r mynyddoedd deuais ar draws mwynglawdd arian. Wrth ymyl yr oedd tafarndy gyd â phinwydden frigog yn sefyll o'i flaen. Yn agos i'r drws gwelais fainc, ac eisteddais arni am ychydig i fwrw'm blino.

Dechreuais feddwl am wahanol bethau hyd nes i'm sylw sefydlu ar y mwynglawdd a safai nepell. Ceisiais ddyfalu a oedd chwilio am arian yn waith caled. Gwyddwn, wrth gwrs, i mi fy hun gael digon o waith drwy gydol fy oes.

Wedi blino ar yr ymbalfalu hwn, syllais o'm blaen ar y môr llyfn. Gwelwn y porthladd, a'r llongau a'r angor. I'r chwith torrai'r tonnau yn ewyn ar ddannedd y graig.

Yn syth allan i'r môr canfum long hwyliau a basiai heibio i ynys fechan. Codai honno megis o ganol tân. Eithriadol brydferth oedd cochni'r haul wrth gerdded tua'r gorwel pell. Ynghanol y darn coch o'r môr safai ysmotyn a gwawr werdd yn lledu drosto.

Dyna olygfa brydferth a digon o swyn ynddi i gaethiwo morwr fel fi.

Gorweddai pob llong mewn tangnefedd, a'u pryderon yn rhwym wrth yr angor. Dechreuais feddwl am forwyr y llestri hyn. Gwyddwn fod ar fwrdd pob un ohonynt ddynion ieuainc yn cellwair â phechod—y canol oed yn ei hud, a'r hen yn ysglyfaeth iddo. Meddyliais am faint y trueni, a'r alanas a elai i wneud pob llong yn gystal darlun o brydferthwch.

A mi fel hyn yn meddwl, torrwyd ar fy myfyrdodau gan leisiau aflafar a ddeuai allan o'r tafarndy. Ie, llais merch oedd, a hwnnw ymron a bod yn ddiofid.

Daeth rhywun at y drws gan edrych arnaf ddwywaith neu dair yn gilwgus. Teimlais hyn yn hytrach na'i ganfod, oherwydd hanner gefnwn ar y drws. Ni fynnwn droi wyneb yn wyneb. Ymhen amser codais ar fy nhraed gan gyfeirio fy ffordd i'r tŷ a mynd i ganol cwmni cywrain.

Ystafell helaeth oedd hi, a'i muriau yn ddiaddurn. Ar silffoedd safai nifer o boteli llawnion. Ar y llawr pridd o flaen y silffoedd yr oedd cownter pren, hyll ei olwg, a llawer o wydrau gweigion arno.

Nid oedd wahanol i lawer o ffeuau diotwyr a welais o dro i dro mewn gwledydd tramor. Hwyrach ei fod ychydig yn fwy gwag na'r mwyafrif ohonynt.

Ond, nid yr ystafell a dynnai fy sylw yn bennaf ond y cwmni. Wrth imi gerdded i mewn edrychasant yn galed arnaf. Yna craffent ar ei gilydd gyda euogrwydd amlwg yn llygad pob un. Hawdd oedd eu hadnabod, cnafon oeddynt. Gan mwyaf Saeson o forwyr a welais. Rhoddasant y goreu i'w llongau, a throi eu sylw i gyfeiriad y mwynglawdd. Dyfernais mai nid eu chwaeth a berodd y cyfnewidiad hwn, ond dwylo cyfraith a'u gorfododd.

A barnu oddiwrth eu dull o syllu arnaf hawdd oedd credu fod rhywbeth o'i le yno. Sylweddolais, ymhen amser, mai'r rhywbeth hwnnw oedd corff a orweddai mewn congl. Hanner drosto lledwyd sgyrt merch, i guddio ei wyneb. Wrth y corff penliniai merch hanner noeth. Gwnai sŵn amhersain, mewn cywair uchel. Nid oedd dim serch yn y nodau am mai sŵn oer a di-enaid wnai. Gorweddai ei gwallt yn anniben dros ei hysgwyddau, a gwelais wrth iddi daflu cip-olwg arnaf fod ei nwydau yn fellt yn ei llygaid. Crochlefai mewn lleisiau annynol.

Corff tal, lluniaidd ac esgeiddig a orweddai wrth ei phwys. Deellais ar unwaith mai ef fu ei chariad. Llanwodd fi a braw wrth ganfod iddo eillio ei wyneb yn lân.

Ni chadwai farf. Yr oedd hyn yn sicrwydd i mi fod y dyn yn hoff o fenywod. Onibai am hyn ni fedrwn sylweddoli y gwnai eillio bob dydd mewn lle anghysbell fel hwn. Credais ar unwaith mae ei awydd i dynnu sylw merched a berai'r balchter hwn. Bellach yn ôl pob tebyg, daeth diwedd i'w helynt. Dywedai popeth wrthyf iddo gael ei ladd mewn creulondeb. Ond, dyna fe, yn y gwledydd hyn yr oedd digwyddiadau o'r fath yn bur fynych.

Aeth fy meddwl yn ôl i bentref tawel yng Ngheredigion. Beth pe bae digwyddiad cyffelyb yno? Buasai cynnwrf drwy'r holl wlad ac ni thawai'r sôn am flynyddoedd lawer. Ond, yma, digwyddiad cyffredin iawn ydoedd!

Daeth un o'r morwyr ataf gan estyn gwydraid o win. Credais mai ef oedd y perchenog. Wedi imi ddrachtio dechreuodd roddi esboniad gan ddweyd am frwydr fu yn ei dŷ.

"Y bore hwn daeth dyn yma gan ladd Ianto," meddai, gan gyfeirio bys at y corff.

"Pwy yw'r Ianto hwn te?" gofynnais. Y syniad cyntaf a ddaeth i mi ar ôl clywed yr enw—Ianto—mai Cymro ydoedd.

"'Wn i ddim llawer am dano wir," oedd yr ateb a gefais.

"Ianto yw ei enw," meddwn.

"Ie, a dyn mawr o gorff. Sais allwn i feddwl oedd e, druan, o leia, siaradai Saesneg."

"Shwt y daeth e yma?" oedd fy ngofyniad nesaf.

"Morwr oedd e. Flynyddoedd yn ôl diangodd o un o'r llongau a ddaeth i'r porthladd yma. Oddiar hynny bu'n gweithio yn y mwnglawdd hwn."

"A soniai ef rywbeth am ei gartref weithiau?"

"Gwnai, yn ei feddwdod—am ei gartref a'i fam weddw."

Methais a chael gwybod enw ei gartref, am na fedrai'r dyn gofio.

"Beth oedd ei enw yn llawn?" gofynnais wedyn.

"Evan Jones, ond galwem ef yn Ianto. Bu ar y môr am flynyddoedd nes i rywbeth ddigwydd yn annymunol. Ni wn y manylion, ond oddiwrth yr hyn a gesglais, credaf iddo ladd rhywun neu ei anafu yn dost. O leiaf, mae hyn yn amlwg, daeth yma yn ffoadur. Gweithiodd yn y fwnglawdd arian yma heb feddwl am ddychwelyd i'r môr."

"Mae yna bennod dywyll yn ei hanes, debig gen i."

"Oes, a barnu oddiwrth yr arwyddion."

"Druan ag ef, dyna ei ddiwedd bellach."

"A sut y digwyddodd hyn?" gofynnais.

"Wel, yr oedd Ianto yn caru y ferch yma. Mi wn iddi fod yn gyfeillgar iawn ag un o fechgyn yr ardal hon."

"O, dyna'r helynt, ie fe? Stori garu."

"Ie, a phan sefydlodd Ianto yma, syrthiodd y ferch mewn cariad ag ef. Aeth y bachgen arall yn gynddeiriog a bygythiodd ladd ei wrthwynebydd ar y cyfle cyntaf."

"Golwg merch anfoesol sydd arni," meddwn gan fwrw golwg i'w chyfeiriad.

"Ie, druan," oedd ei unig eiriau.

Clywais wedyn y manylion am y frwydr. Bu'r ddau yn yfed yn drwm, a daeth sôn am y ferch. Ymddangosodd hithau ar y pryd, a gwaethygodd hyn gyflwr pethau. Yr oedd yn amlwg ddigon mai Ianto oedd y dyn yn ei golwg. Wrth ganfod hynny cododd y llall ar ei draed yn sydyn a rhoddodd ergyd i Ianto nes ei fod ar ei hyd ar y llawr. Neidiodd arno, a brathodd ef â chyllell lem ei min."

"Dyma'r gyllell a wnaeth y gwaith," meddid wrthyf gan ei hestyn i mi.

Erbyn hyn dychwelodd un o'r cwmni a fu ar neges ar gefn asyn yn cyrchu ceibiau a rhawiau. Wedyn, awd ati i dorri bedd i Ianto dan gysgod y binwydden unig. Gwaith hawdd oedd agor y ddaear dywodlyd, ac felly gorffenwyd ar fyr dro.

Cariwyd y corff allan o'r tŷ. Clywais yno y ferch o hyd yn wylo yn ddolefus ac undonog. Gorweddai yn yr unfan fel delw digyffro. Codwyd hi, oherwydd yr oedd yn hollol ddiymadferth. Ni ddywedodd air, ond ochneidiodd yn drwm, yn wyneb y driniaeth. Gofynnodd un o'r cwmni a oedd y sgyrt i'w rhoi i'r pridd gyda'r corff. Y farn gyffredin oedd mai gwell fuasai estyn honno yn ôl i'r ferch.

"Ie," meddwn innau, "falle mai dyna'r unig bilyn o'r fath sydd ganddi."

Cyn symud y corff awgrymais y dylid edrych drwy ei bocedi i weled beth oedd yno. Cytunwyd, a rhoddwyd hynny o orchwyl i mi. Tynnais y gorchudd oddiar ei wyneb, a gwelais bryd a gwedd oedd, rywfodd, yn gyfarwydd i mi.

"Cymro yw hwn," meddwn wrthyf fy hun. Mewn nifer fawr o engreifftiau hawdd yw dod i farn felly. Medrwn dyngu ar y pryd imi weled y wyneb yna lawer gwaith yn rhywle. Ceisiais ddwyn ar gof, ond aflwyddiannus fu pob ymdrech.

(*I'w barhau.*)

Urdd y Benywod.

PANTEG.—Cyfarfu cynrychiolwyr y gwahanol ganghennau ynghyd ag aelodau o'r eglwysi yng Nghapel Panteg Capeliwan ar brynhawn Sul, Gorffennaf 4, a daeth chwe bws a rhyw ddau gant o bererinion hapus i Ddyffryn Cuch, i ddaear sanctaidd lle bu ein teidiau gynt yn addoli Duw. Yr oedd y capel bychan prydferth yn llawer rhy fach am y tro, a gorfu i lawer sefyll yn y fynwent. Awd trwy y rhannau defosiynol gan Miss S. A. Jones, Llandysul, ac anerchwyd y gynulleidfa gan Mrs. Davies y Faerdre y Llywydd am y flwyddyn, a siaradodd yn doddedig iawn am golled yr enwad drwy farw o rai annwyl yn ddiweddar. Croeshawyd y pererinion gan Miss James, C.S., Greengrove a darllenodd bapur rhagorol ar Hanes Capel Panteg (Fe'i ceir yn y rhifyn hwn). Fe'i dilynwyd gan bapur ar Broblemau'r Dydd yn eu cysylltiad â'r benywod a'u gwaith yn yr eglwysi gan Mrs. Oswald Williams. Fe'i lluddiwyd rhag bod yn bresennol ond darllenwyd y papur gan ei phriod. Diolchwyd i'r siaradwyr ar gynnig Mrs. Jenkins, Y Bryn, Llanybyther ac eiliwyd gan Miss Evans, Llandysul. Wedi gwasanaeth y prynhawn, aeth llawer hyd lan y nant gerllaw, Y Mammog, a medrid gweld yno y grisiau mwsoglyd a arweiniai i lawr i'r dŵr lle trochid gynt. Trwy garedigrwydd aelodau eglwys Annibynnol Capel Iwan cawd benthyg y Festri er paratoi lluniaeth i'r dorf fawr, ac yr oedd diolch pawb yn ddyledus i'r chwiorydd o'r Greengrove am eu ffwdan a'u trafferth. Rhagor na hynyna, cynhygiodd aelodau yr Eglwys fenthyg eu capel hardd ac eang i gynnal oedfa'r hwyr ac fe'i derbyniwyd yn wresog iawn. Dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr a phregethwyd yn felys a chynorthwyol gan y Parch. E. O. Jenkins. (Nid yw ond iawn dweyd ei fod ar ei uchelfannau wrth sôn am yr hen deidiau a'u daliadau. Ni chredaf iddo bregethu yn well erioed.—*Gol.*). Diolchwyd yn gynnes iawn i aelodau Capel Iwan a dwedodd Mr. Davies, Glanmamog, blaenor o'r eglwys am y pleser a gai o groeshawu "defaid eraill nad ynt o'r gorlan hon" i Gapeliwan. Rhyw duedd sydd ynom weithian i gredu nad oes angen pregethu Undodiaeth mwy, am fod pawb mwy neu lai yn Undodiaid, ond cawsom ein hargyhoeddi yng Nghapeliwan bod hen syniadau yn cymryd amser hir i farw. Awd adref wedi'r gwasanaeth yn hwyr a lluddedig ond nid ar fyrr yr anghofia aelodau Urdd y Benywod y daith a'r pererindod i Banteg, a thrist yw meddwl nad oes yno weithian ond marwor twym ar yr hen allor.—K.J.

Adolygiadau.

AMAETHYDDIAETH CYMRU gan Moses Gruffydd. 3c.

Nid yw hwn ond pamffled Plaid Genedlaethol Cymru. Nid yw well na gwaeth am hynny ond credaf y talai i ddarllain i bobun, yn enwedig er gweld cyflwr pethau,—"Yn lle bod tua 90 o bob cant o ddynion y wlad yn ennill eu bywoliaeth oddiar y tir, neu ynglŷn ag ef mewn rhyw ddull neu'i gilydd, heddiw ni cheir ond tua 7 y cant . . ."

Trafodir cwestiynnau fel Paham yr edwina Amaethyddiaeth Cymru? a chynhygir Cynlluniau Newydd i Amaethyddiaeth Cymru.

Credaf y talai y pamffled hwn am ei ddarllain yn ofalus.

REPORT OF A RELIGIOUS DELEGATION TO SPAIN, APRIL 1937. Victor Gollancz. 6c.

Nid yw y pamffled hwn ond cais i daflu ffrwd o oleuni ar gyflwr Ysbaen. Dwedir celwyddau anhygoel ar y Radio ac yn y Wasg, ac aeth Dr. Hewlett Johnson ac eraill allan i Ysbaen er gweld a oedd yr Ysbaenwyr yn llosgi eglwysi gan ladd yr offeiriaid.

"There is clear evidence that the Government intend at the earliest opportunity to allow the churches to be reopened, to accord full religious toleration and to offer to the Church in Spain the means of contributing to a new regime in which ecclesiastical authority may be willing to cooperate in furthering the democratic aspirations of the Spanish people and to purge itself of these reactionary influences which unhappily played so large a part in the policy of many of the Spanish clergy prior to the war."

VERACITY. Essex Hall Lecture 1937, gan Sir Richard Livingstone, M.A., D.Litt. LL.D.

Caraf ei ddiffiniad o *Eirwiredd* fel "the habit of seeing and describing things as they are."

Chwilia len Groeg a daw ar draws "*The Noble Lie*", a cheir yn adeg pob rhyfel gyfleu i'r *Noble Lie*.

Rhydd secret bywyd y Groegwr mewn tair brawddeg. Awyddent am wybodaeth neu ddoethineb. Carent weld pethau fel y maent. Gwyddent ymha dymer i gario dadl ymlaen.

Dilyn y Darlithydd yr ymchwil drwy feysydd llenyddiaeth Groeg gan gau pen y mwdwl â geiriau syml Plato,—

"Truth is beautiful and permanent."

Fe fyddai yn dda i ninnau ddarllain y ddarlith gyfoethog hon nid yn gymaint er gwybod beth yw *Geirwiredd* ond er gweld a grea ynom awydd i weithredu a byw yn eirwir. Darllener hi er gweld ffordd y Groegwr o ddadrys a dilyn y Gwir.

Marwgofion.

AR 30 o Fai bu farw SARAH DAVIES gweddw y diweddar David William Davies (Brynfardd) yn nhŷ ei mab hynaf yn Heol Newydd, Trebanos, lle yr oedd wedi byw y pedwar mis olaf o'i bywyd yn ymylu ar bedwar ugain a thair oed. Yr oedd wedi mwynhau iechyd eithriadol o dda yn ystod ei bywyd hir ar y ddaear. ac yn ystod ei dyddiau olaf gweinyddwyd arni yn dyner a gofalus gan ei merch-yng-nghyfraith, ei mab a'i dwy wyres ac eraill. Cafodd gystudd caled, yn eithriadol felly ar adegau, ond dioddefodd y cyfan yn dawel ac amyneddgar. Merch hynaf ydoedd i'r diweddar David a Rachel Bowen gynt o'r Collier's Arms, Trebanos ac yn un o ddeuddeg o blant. Yn gyffredin fel llawer yn ei hamser ni chafodd ond ychydig o fanteision addysg. Yr oedd yn hynod o ddiwyd a gweithgar a bu ei gwasanaeth yn ddeunyniol a defnyddiol iawn yn y gymydogaeth am gyfnod maith. Yn ei chartref yr oedd ganddi bob amser groeso cynnes a gwresog i bawb. Bu hefyd am rai blynyddoedd yn glanhau Capel Gellionnen cyn adeiladu Capel y Graig. A bu rai o weinidogion yr enwad yn lletya yn ei chartref o dro i dro. A chyda llaw hi oedd aelod hynaf y gynulleidfa ar adeg ei marwolaeth. Gadawodd ar ôl yn eu galar ddau fab a'u gwragedd, tair wyres, dau ŵyr, pump chwaer, dau frawd a llu o berthynasau. Claddwyd y dydd Iau canlynol yng Ngellionnen pryd cafodd angladd parchus. Gwasanaethwyd yn dyner a thoddedig gan y Parchn. J. D. Jones, B.A., B.D. a Daniel Johns, Gosen, Trebanos. Y Sul canlynol cynhaliwyd gwasanaeth coffa iddi yng Nghapel y Graig pan dalodd y gweinidog deyrnged uchel o barch i'r ymadawedig fel gwraig haelionus, ymdrechgar a pharod ei gwasanaeth bob amser. Melys fyddo'i hun yn mynwent henafol Gellionnen.

CYDYMDEIMLWN yn ddirfawr â Mr. a Mrs. Davies, Midland Bank, Llandysul, yn eu hiraeth am eu merch fechan annwyl ELIZABETH JOSEPHINE a fu farw Mehefin 16 yn un-ar-bymtheg mis oed. Claddwyd ym mynwent Pantdefaid ar y 19 a gwasanaethwyd gan y Parchn. Myfyr Evans, David Rhydderch, B.A. a Gwilym Evans, B.A.

"Aeth diniweidrwydd at ei Dduw,
Dros fyth i fyw'n ei burdeb."

NID gorchwyl hawdd i mi yw cofnodi marwolaeth Mrs. JONES, Gellifaharen, Llandysul, gweddw y diweddar John Jones, cyfreithiwr, Llandysul a chofrestrydd Llys y mân daliadau—yn eu tro—yn Aberaeron, Castell Nedd ac Abertawe. Wedi 38 mlynedd o adnabyddiaeth agos ohoni ac wedi ei chael megis mam ymhob dim mae bywyd gryn dipyn yn wacach hebddi. Hunodd Sul, Mehefin 20 ar ôl rhyw fythefnos o gystudd yn 90 oed. Yr oedd Mrs. Jones yn fenyw ar ei phen ei hun ; yn dywysoges ymhlith gwragedd ac yn meddu ar bersonoliaeth ag iddo gydbwysedd rhyfeddol. Yr oedd ganddi gorff a dynnai sylw : corff lluniaidd cyfan drosto a rhyw osgo anrhydeddus yn perthyn iddo. Yr oedd yn fenyw o feddwl cryf, clir, treiddgar ac yn un a gymerai ddiddordeb, a hwnnw'n ddiddordeb deallus ymhob peth bron ag sy'n ymwneud â dyn ac â bywyd. Chwaraeodd ran bwysig ym mywyd ei phlwy a'i sir. Bu am flynyddoedd ar Bwyllgor Addysg y sir—hyd nes fod teithio i'r pwyllgorau wedi mynd yn ormod o faich. Gwnaeth feallai fwy na neb i sefydlu'r Ysgol Ganol yn Llandysul ac hyd ychydig o flynyddoedd yn ôl yr oedd yn un o'i lywodraethwyr. Cymerai ddiddordeb mawr yng nghychwyniad mudiad y *Girl Guides* yn Llandysul a noddodd y mudiad hyd derfyn ei gyrfa. Fel aelod o gynulleidfa Llwynrhydowen yr oedd megis "mam yn Israel". Bu hi a'i phriod yn ffyddlon i'r eithaf i Gwilym Marles yng nghyfyngder y "troad allan yn 1876" a daliodd i fod yn un o golofnau'r achos hyd y terfyn eithaf. Os na fuasai rhywun arall yn barod i roddi'r Tê blynyddol i'r gynulleidfa ac ysgol Sul ym mis Mawrth gallesid syrthio'n ôl arni hi unrhyw amser. Hi roddodd y wledd Mawrth diweddaf. Yr oedd yn Undodwraig argyhoeddedig : medrai egluro'r ffydd Undodaidd yn feistrolgar ac os byddai galw ei hamddiffyn gyda medrusrwydd athraw—eto ni wyddai ystyr culni enwadol ; yr oedd ei meddwl yn rhy goeth a'i chalon yn rhy fawr i fod yn gul. Yr oedd yn gerddorol iawn. Pleser o'r mwyaf oedd ei gweld yn eistedd wrth y berdoneg neu'r delyn a medrai dynnu miwsig melys allan o'r naill a'r llall. Cymerai ddiddordeb anghyffredin mewn hen bethau : hen arferion, hen ddodrefn, hen lestri. Gwariodd rai cannoedd o bunnau ar hen ddodrefn a llestri o bob math nid er elw ond i borthi ryw nwyd ag oedd ynddi. Y peth pennaf, amlycaf ynglŷn â hi oedd ei hysbryd defosiynol. Yr oedd ganddi ffydd angherddol yn Nuw a hono mor syml—mor debyg i ffydd plentyn a dim y daethom o hyd iddo. Y ffydd a'i cadwodd yn wyneb profedigaethau bywyd. Pan ddelai profedigaeth rhoddai ei holl bwysau ar Dduw a chafodd ef yn gynhaliaeth ryfeddol. Yn ei chartref brenhines oedd—yn fam yn ystyr lawnaf y gair ; yn drefnydd gwaith doeth a phwrpasol ac yn wir ragorol fel lletywraig (hostess). Ychydig funudau a byddai'r dieithryn pennaf yn hollol gartrefol ar aelwyd Gellifaharen. Cafodd oes faith, gwnaeth ddefnydd da o honi ; bu fyw fel tywysoges, bu farw fel tywysoges : marw yn llawn ffydd yn naioni Duw a bod bywyd i'w barhau. "Dy Ewyllys Di a wneler."

MEHEFIN 27 ar ôl cystudd byr ANNE JONES, Drenewydd, Pontshan, yn 55 oed. Cafodd iechyd da ar hyd ei oes, nis gwyddai beth oedd afiechyd na bod dan law meddyg hyd o fewn ychydig iawn o ddyddiau i'w marw. Ers blynyddoedd—wedi claddu ei thad bu byw wrthi ei hun a gofalu am y fferm ; dangosodd egni a gwroldeb mawr. Gadawodd i weld ei heisiau ddau frawd, ychydig berthynasau a'i chymdogion. Claddwyd yr Iau dilynol yn ymyl ei rhieni ym mynwent Carmel. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins yn cael ei gynorthwyo gan Mri. Thomas a Jones, ciwradiaid Llandysul ; T. O. Williams a D. A. Williams, Carmel.

Bu farw HANNAH JONES, Penwalke, Pontshan, Gorffennaf 1 yn 59 mlwydd oed. Claddwyd ei gweddillion marwol ym Mhantdefaid y Llun dilynol a phregethwyd yn y capel gan y Parch. D. A. Thomas, M.A., Ficer Llandysul.

Hiraethodd cylch eang wrth glywed am farwolaeth DANIEL THOMAS, Fronwen, Llandysul, dydd Gwener, Gorffennaf 9 yn 57 mlwydd oed. Cafodd angladd anrhydeddus dydd Mawrth, Gorffennaf 13, y Parch. E. O. Jenkins yn darllen a gweddio yn y tŷ, ei weinidog yn pregethu yn y capel a'r Parch. J. G. Thomas, Ciwrad Llandysul wrth lan y bedd. Gweithiwr gonest drwy ei oes a mawr ei barch.

" Erys er i'r gweithiwr farw
Ei lafur-waith ef ;
Sôn am dano mae pob erw
Wrth y nef.

Gorffennaf 18 bu farw DAVID EVANS, Cairo, Trefilan, gynt o Penwern, Felinfach, yn 80 mlwydd oed. Hyd ei afiechyd olaf, a barhaodd am ddau fis, yr oedd wedi bod yn iach iawn ; a pharai yr iechyd da a gafodd ei fod wedi dal heb fyned yn hen o ran ei ymddangosiad allanol. Gweithiwr diwyd fu ar hyd ei oes, a thrwy ddiwydrwydd a gofal yr oedd wedi dyrchafu ei hun o fod yn was fferm i ddal fferm o faintioli mawr ei hun. Cafodd ei briod yn gymorth da yn yr ymdrech hon. Er dyfaled ydoedd gyda gorchwylion y byd nid esgeulusodd yr ochr grefyddol i fywyd, a bu yn ffyddlon gyda chrefydd. Yr oedd yn ddiacon yn eglwys Rhydygwin. Tra ym Mhenwern ni fyddai byth yn absennol o'r gwasanaeth. Y mae y ffordd o Gairo i Rydygwin ymhell, ond deuai i'r gwasanaeth y prynhawn yn gyson hyd ei gystudd olaf. Peth hyfryd iawn oedd gweled un o'i oed ef yn cerdded cymaint pellder i dŷ Dduw mewn dyddiau pan y mae cerdded, yn enwedig i wasanaeth crefyddol, wedi myned yn orchwyl anhawdd. Nid yn ofer yr âi i'r gwasanaeth ar y Sul, ond derbyniai o'i hysbryd, canys tystiolaeth ei gymdogion oedd ei fod yn barod bob amser i wneyd cymwynas. Claddwyd ym Mrondeifi. Gwasanaethwyd gan y Parch. Lewis Williams, a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. T. O. Williams, M.A. a Dewi Jones, Abergwaun. Yr oedd yn bresennol y Parch. D. Evans, Cwmiago, cefnder yr ymadawedig. Gadawodd mewn galar briod, dau fab, pedair merch, ŵyrion, dau fab-yng-nghyfraith, dwy ferch-yng-nghyfraith, brawd a chwaeryng-nghyfraith, cefnderoedd, ac amryw o berthynasau eraill. Bydded iddynt gael cymorth yn ôl yr achos.

Nodion yr Eglwysi.

DIOLCH.—Nid yn aml y byddaf yn cael Diolch, ac o'i chael yr wyf fel plentyn yn falch iawn ohoni. Da oedd gennyf glywed oddiwrth y Parch. Delta Evans, Brynrhyw—lle tawel, cornel Caint. Ie, saif O a llawer llythyren arall dros yr un un, a hynny am reswm syml. Anaml yw'r llafurwyr y dyddiau hyn, ond ni fedrwn beidio ysgrifennu gair am fy hen gyfaill Park. Ni fedrem fforddio ei golli, ond fe gafodd ef ei gyfleu, a chafodd farw yn yr harnais. Ni chaiff pawb ohonom y cyfleu, a dychmygaf Park yn ymadael â gwên ar ei wyneb am iddo gael ei gyfleu yng Nghaerfyrddin. Cafodd waith wrth fodd ei galon ac os byrr bu ei dymor ba wahaniaeth ? Diolch, Delta. (Y mae Mrs. Davies a'i dau fab am ddiolch o galon yn eu dagrau i bawb a oedd yn Rhwym gyda hwy . . . Y mae yn anodd anfon gair personol i bawb. Derbynied pobun felly air cyffredin drwy gyfrwng yr Ymofynnydd.)

J. D. Lewis a'i Feibion, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha)
Edited by MORTIMER ROWE, B.A. assisted by Principal H. MC LACHLAN, and DR. DOROTHY TARRANT. 1,033 pages cr. 8vo. 7/6 net (by post 8/-). Leather bound, gilt edges, 10/6 (by post 11/-). A book for every lover of great things in literature and life.

CHRISTIANITY AS A NEW RELIGION
By PERCY DEARMER, M.A., D.D., Canon of Westminster. Price 1/- (by post 1/1). (The 1935 Essex Hall Lecture). Many formal lectures still in print. Send for list.

THE ESSENTIALS OF CHRISTIANITY
By HERBERT J. ROSSINGTON, M.A., B.D. Price 1/- (by post 1/1). Cloth, 2/- (by post 2/2).

DOCTRINES THAT DIVIDE THE CHURCHES
By C. M. WRIGHT, M.A. Price 6d. (by post 7d).

CHRISTIAN EXPERIENCE
By G. RANDALL JONES, M.A., B.SC., B.D. This is No. 21 in the series:
RELIGION : ITS MODERN NEEDS AND PROBLEMS
Edited by RAYMOND V. HOLT, M.A., B.LITT. Twenty-one books of different titles and authors are now issued. 1/- each (by post 1/1).

Send for 24 page Prospectus with synopsis of the individual books.

The Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2.

OS YDYCH AM RODDI ANRHEG AM FFYDDLONDEB I'R YSGOL SUL A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

"PERLAU MOLIANT"

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.



Cecil Jones, F.B.O.A., F.S.M.C., F.I.O.

:: QUALIFIED OPHTHALMIC OPTICIAN ::

31, Great Darkgate Street

ABERYSTWYTH

TELEPHONE No. 209.